

Elusennau sy'n gweithio ym maes hawliau dynol

COMISIWN ELUSENNAU

Y Comisiwn Elusennau yw'r rheolydd annibynnol ar gyfer gweithgaredd elusennol. Mae hwn yn un o gyfres o adroddiadau sy'n cyflwyno'n profiad gwaith achos, sy'n cael ei ategu gan ymchwil ychwanegol. Pwrpas y gyfres yw helpu i wella dealltwriaeth o broblem. Mae hyn yn rhan o'r genhadaeth i helpu elusennau i gael yr effaith fwyaf posibl, i gydymffurfio â'u cyfrifoldebau yfreithiol, annog arloesedd a gwella effeithiolrwydd.

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried yr elusennau hynny sydd wedi cofrestru gyda ffocws penodol ar faterion hawliau dynol.

Tabl Cynnwys

Cyflwyniad 2

Crynodeb gweithredol 3

1. Cefndir 5

2. Am elusennau hawliau dynol 6

2.1 Patrymau cofrestru 6
2.2 Maint elusennau hawliau dynol 8
2.3 Rôl 8
2.4 Proffil 9

3. Themâu sy'n dod i'r amlwg 10

3.1 Yr elusennau 10
3.2 Sefydlu'r elusen 12
3.3 Annibyniaeth 12
3.4 Canfyddiad y cyhoedd 13
3.5 Cyfleu'r neges 14
3.6 Cyllido 14
3.7 Llwyddiannau a gwneud gwahaniaeth 15
3.8 Dangos effaith 16
3.9 Osgoi dyblygu gwaith a gweithio mewn partneriaeth 16
3.10 Ymgyrchu dros bolisi a deddfwriaeth, ei newid neu ei fonitro 17

Casgliad 18

Atodiad A - Technegau ymchwil 19

Atodiad B - Ffeithiau a ffigurau 20

Atodiad C - Rhestr termau 23

Atodiad Ch - Ffynonellau gwybodaeth 24

Atodiad D - Llyfryddiaeth 25

Diolchiadau 26

Cyflwyniad

Mae gan elusennau draddodiad hir o hybu hawliau eu buddiolwyr. Mae llu o enghreifftiau: gall un elusen sy'n gweithio i gynorthwyo pobl anabl lobïo am newid yn y gyfraith a fyddai'n cynnig budd i'w grŵp cleientiaid. Bydd elusen arall sy'n rhoi cymorth i'r tlodion dramor yn ymgyrchu ar gyfer mabwysiadu hawliau dynol mewn gwlad arbennig lle y byddai hynny'n helpu i leddfu tlodi yno.

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried yr elusennau hynny sydd wedi cofrestru gyda ffocws penodol ar faterion hawliau dynol. Wrth ei baratoi fe ymwelwyd â saith o'r elusennau hyn i ddysgu o'u profiad o weithio yn y maes hwn o ddydd i ddydd. Fe welwyd rhai themâu cyffredin diddorol: er enghraifft, y gwerth mawr y mae elusennau hawliau dynol yn ei roi ar eu hannibyniaeth, pwysigrwydd a sialensiau cyfleu eu neges i wahanol gynulleidfaoedd a'r materion a wynebant wrth fesur eu heffaith. Dywedodd rhai o'r elusennau hyn yr hoffent ddeall yn well i ba raddau y gall elusennau ymwneud ag ymgyrchu, ac mae'r Comisiwn wrthi'n ailysgrifennu ei ganllawiau i egluro hyn.

Fe welwyd llawer o dystiolaeth o arfer da: mae'n amlwg bod nifer o elusennau hawliau dynol yn gyfarwydd â manteision gweithio mewn partneriaeth ag eraill ac osgoi dyblygu gwaith er mwyn gwneud y mwyaf o adnoddau a chanlyniadau ar draws eu meysydd gweithredu.

At ei gilydd, fe welwyd bod perfformiad a threfniadau llywodraethu'r elusennau hyn yn debyg i elusennau eraill. Er hynny, fe welwyd tystiolaeth o fwy o gwynion am eu gwaith na mathau eraill o elusennau. Nid yw hyn yn syndod efallai yn wyneb proffil uchel a natur ddadleuol eu meysydd gweithredu yn gyffredinol.

Gyda hawliau dynol yn tynnu sylw'r cyfryngau byth a hefyd, a'r gydnabyddiaeth ddiweddar o hybu hawliau dynol fel disgrifiad o ddiben elusennol ynddo'i hun yn Neddf Elusennau 2006, rydym yn gobeithio y bydd y gorolwg byr hwn yn dangos rhai o'r ffyrdd amrywiol y bydd elusennau yn ceisio hybu a diogelu hawliau dynol.

Crynodeb gweithredol

Mae hybu hawliau dynol yn ddiben elusennol cymharol newydd a dim ond yn 2002 y cafodd ei gydnabod fel diben ynddo'i hun gan y Comisiwn Elusennau. Mae'n bosibl bod hyn yn esbonio pam nad oes llawer o elusennau hawliau dynol gyda'r dibenion hyn wedi'u rhestru ar Gofrestr Elusennau y Comisiwn. Cyn hyn, roedd yn elusennol i addysgu pobl mewn materion hawliau dynol; neu leddfu angen y rhai yr oedd eu hawliau dynol wedi cael eu torri, ac mae'r rhain yn ffurfio'r rhan fwyaf o ddibenion yr elusennau hawliau dynol hynny a gofrestrwyd cyn 2002.

Ein prif gasgliadau o ddadansoddiad o'r elusennau hyn oedd:

- Dim ond 206 o elusennau sydd wedi cofrestru gyda dibenion elusennol sy'n cynnwys materion hawliau dynol yn uniongyrchol, nifer fach iawn sy'n cynrychioli dim ond 0.1% o'r holl elusennau cofrestredig.
- Mae nifer yr elusennau sy'n cofrestru i fynd i'r afael â materion hawliau dynol wedi codi o uchafswm o un neu ddwy y flwyddyn ers 1960 i 28 o gofrestriadau yn 2006. Nid yw'r cynnydd amlwg yn nifer y cofrestriadau dros y pum mlynedd diwethaf yn syndod yn wyneb y datblygiadau cyfredol ym maes hawliau dynol, gan gynnwys ein cydnabyddiaeth o hawliau dynol fel diben elusennol ynddo'i hun yn 2002.
- Roedd cyfanswm incwm diweddaraf elusennau hawliau dynol bron £160 miliwn. Mae hyn yn cynrychioli ychydig o dan 0.4% o'r cyfanswm incwm a gofnodwyd ar gyfer y Gofrestr gyfan.
- Mae dros dri chwarter (76%) o'r holl elusennau ar y Gofrestr wedi cael eu sefydlu i weithredu mewn ardaloedd lleol, ond mae mwy na phedair rhan o bump (82%) o elusennau hawliau dynol wedi cael eu sefydlu i weithio'n genedlaethol ac yn rhyngwladol.
- At ei gilydd, nid yw elusennau hawliau dynol yn wahanol i fathau eraill o elusennau o ran eu trefniadau llywodraethu - er enghraifft, mae'r mathau o strwythurau cyfreithiol ar gyfer eu sefydlu a nifer yr ymddiriedolwyr ar eu bwrdd yn debyg yn fras i elusennau eraill.
- Un maes lle mae elusennau hawliau dynol yn wahanol, yn ôl ein harchif gwaith achos, yw nifer y cwynion y gofynnir i ni ymdrin â nhw ynghylch elusennau hawliau dynol. Mae hyn yn uwch na'r rhai ar gyfer elusennau eraill, a gall fod yn ganlyniad i natur ddadleuol a phroffil uchel eu gwaith yn gyffredinol.

Themâu sy'n dod i'r amlwg ar gyfer hawliau dynol

Er mwyn deall yn well yr amgylchedd cyfredol y bydd elusennau hawliau dynol yn gweithredu ynddo, cynhaliwyd ymweliadau cynhwysfawr â saith elusen. Daeth rhai themâu cyffredin diddorol i'r amlwg.

Sefydlu'r elusen

Yn debyg i'r rhan fwyaf o elusennau, fe welwyd bod y rhai sy'n gweithio ym maes hawliau dynol wedi cael eu sefydlu o ganlyniad i achos arbennig neu sefyllfa barhaus. Dywedodd rhai[1] eu bod nhw wedi cael problemau wrth sefydlu'r elusen i gychwyn oherwydd anawsterau cyllido a chanfyddiadau negyddol y cyhoedd yn gyffredinol o'r achosion yr oeddent yn dymuno eu hybu.

Er bod nifer wedi cael eu cofrestru gyda chylch gwaith daearyddol eang, yn ymarferol, bydd y mwyafrif yn canolbwyntio ar ardaloedd neu ranbarthau arbennig fel arfer.

Annibyniaeth

Er mwyn cynnal hyder eu buddiolwyr, eu noddwyr a'u rhanddeiliaid yn gyffredinol, roedd rhai elusennau wedi pwysleisio pwysigrwydd cynnal, a chael eu gweld fel cyrff sy'n cynnal eu hannibyniaeth. Er ei fod yn bwysig i bob elusen, mae'n ymddangos bod hyn yn cael effaith arbennig ar y rhai sy'n hybu hawliau dynol oherwydd ei fod yn cael effaith fawr ar faterion megis cyllido a lleoliad ffisegol yr elusen. Er enghraifft:

- ni fyddai rhai elusennau yn derbyn cyllid gan lywodraethau yn y rhanbarthau lle yr oeddent yn gweithio; ac
- roedd gan nifer ohonynt ganolfannau y tu allan i'r rhanbarthau lle yr oeddent yn gweithio. Dywedodd un elusen fod hyn yn rhoi sicrwydd i unigolion ei bod yn annibynnol ar y gwrthdaro sy'n bodoli yn y rhanbarth.

Canfyddiad y cyhoedd

Yn gyffredinol, dywedodd yr elusennau hyn wrthym eu bod yn wynebu anawsterau parhaus o ran sicrhau cefnogaeth ar gyfer y materion y maent yn delio â nhw. Y rheswm am hyn yn aml yw oherwydd bod y materion hyn yn anghyfarwydd i bobl, neu'n bell yn ddaearyddol o'r bobl y ceisir eu cefnogaeth. O ganlyniad, mae'r elusennau hyn yn rhoi pwyslais cryf ar godi ymwybyddiaeth ac addysgu'r cyhoedd yn gyffredinol am y materion hawliau dynol dan sylw.

Roedd yr elusennau yn cytuno yn gyffredinol bod rhoi cyhoeddusrwydd i'w hachosion mewn ffordd sy'n hygyrch ac y mae'r cyhoedd yn ei deall yn anodd. Er hynny, fe welwyd bod gan y rhan fwyaf ohonynt ffyrdd gwahanol iawn o drin y cyfryngau, yn amrywio o elusen gyda swyddog y wasg amser llawn i elusen arall sy'n cyfyngu ar nifer y datganiadau i'r wasg y mae'n eu cyhoeddi oherwydd nad oes adnoddau digonol ganddi i ddelio â'r gwaith mawr a gynhyrchir ganddynt.

Cyllido

Mae nifer o elusennau yn wynebu anawsterau o ran cyllido ac nid oedd elusennau hawliau dynol yn eithriad yn hyn o beth, er bod eu persbectif yn wahanol o bosibl. Er enghraifft, dywedodd un elusen fod y canfyddiad bod elusennau hawliau dynol yn wleidyddol yn gallu rhwystro darpar noddwyr rhag cyfrannu. Pryder arall yw'r posibilrwydd y gall rhai darpar noddwyr geisio defnyddio eu cyllid fel modd o ddylanwadu ar yr elusen a gweithredu i'w hagendâu eu hunain.

Llwyddiannau a gwneud gwahaniaeth

Roedd yr elusennau yr ymwelwyd â nhw wedi rhoi enghreifftiau o'r prif feysydd lle y maent yn gwneud gwahaniaeth. Roedd diwygio polisi neu ddeddfwriaeth yn thema allweddol. Roedd nifer o'r elusennau yn ymwneud â chyflwyno neu fonitro polisi neu ddeddfwriaeth, yn y DU a thramor. Roedd rhai wedi codi pryderon penodol am hyd a lled eu gallu i ymgyrchu o dan y faner hawliau dynol.[2]

Dangos effaith

Yn wyneb yr amgylchedd cymhleth y mae'r elusennau hyn yn gweithredu ynddo, gall dangos effaith eu gweithgareddau fod yn anodd am sawl rheswm. Er enghraifft, roedd gweithio mewn ardaloedd o wrthdaro yn ei gwneud hi'n anodd i gasglu ffeithiau neu ffigurau pendant. Mae anhawster arall o ran mesur effaith yn deillio o'r nifer fawr o ffactorau y mae angen iddynt eu hystyried er mwyn gwneud gwahaniaeth. Fodd bynnag, at ei gilydd, roedd y rhan fwyaf o elusennau wedi dangos ffyrdd amrywiol a phendant o gael hyd i atebion ymarferol i'r materion hynny.

Osgoi dyblygu gwaith a gweithio mewn partneriaeth

Fe welwyd bod yr elusennau hyn yn rhoi pwyslais mawr ar osgoi dyblygu gwaith naill ai gyda sefydliadu eraill neu o fewn canghennau o'u sefydliad eu hunain. Er enghraifft, roedd un wedi cynnal astudiaeth ddichonoldeb cyn iddi gael ei sefydlu hyd yn oed er mwyn gwneud yn siŵr bod lle ar gyfer y math o waith yr oedd yn bwriadu ei wneud. Fel arfer, bydd y rhan fwyaf yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill er mwyn cyfrannu at ymgyrchoedd sydd o ddiddordeb i'r ddau ohonynt.

---

1 Mae hwn yn adroddiad ansoddol yn bennaf ac mae'r casgliadau hyn yn seiliedig ar saith elusen yn unig, felly defnyddiwn y termau 'rhai' a 'nifer' i fynegi lefelau cytundeb cyffredinol rhwng elusennau. Ni fwriedir i'r termau hyn gymryd lle rhifau cywir.

2 Mae'r Comisiwn yn gweithio i egluro i ba raddau y gall elusennau ymwneud ag ymgyrchu a bydd yn cyhoeddi fersiwn diwygiedig newydd o *Ymgyrchu a Gweithgareddau Gwleidyddol gan Elusennau* (CC9) yn gynnar yn 2008. Yn y cyfamser, rydym wedi cyhoeddi canllaw atodol, *Ymgyrchu a Gweithgareddau Gwleidyddol gan Elusennau - rhai cwestiynau ac atebion* (Ebrill 2007), sydd ar gael ar ein gwefan, www.charitycommission.gov.uk

1. Cefndir

Mae'r Comisiwn Elusennau bob amser wedi cydnabod hyrwyddo addysg mewn materion hawliau dynol yn elusennol a chynorthwyo'r rhai sydd wedi dioddef troseddau hawliau dynol ac mae angen cymorth arnynt. Mae hawliau dynol yn cael eu hystyried yn hanfodol i weithrediad iach cymdeithas ac mae parch at hawliau dynol yn cael ei ystyried yn rheidrwydd moesol yn gyffredinol. Yn y wlad hon, mae gweithredu Deddf Hawliau Dynol 1998 yn 2000 yn atgyfnerthu'r rheidrwydd cyfreithiol.

Yn 2002, roedd adroddiad Uned Strategaeth y Llywodraeth Gweithredu Preifat, Budd Cyhoeddus wedi argymell y dylai hybu hawliau dynol gael ei gynnwys yn y Ddeddf Elusennau newydd arfaethedig, fel diben elusennol ynddo'i hun. Y rheswm a nodwyd am hyn oedd y byddai *"...yn cynnig modd i elusennau chwarae eu rhan lawn yn y tasgau hanfodol o ddiogelu hawliau dynol yn y DU a thramor..."*[3] Yn yr un flwyddyn, roedd y Comisiwn Elusennau wedi cydnabod hybu hawliau dynol fel diben elusennol ynddo'i hun.

Gyda chasgliadau Adroddiad yr Uned Strategaeth ac yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, yn 2005 ailddatganwyd ein safiad a'n penderfyniad i gydnabod bod hybu hawliau dynol yn ddiben elusennol a chyhoeddwyd canllaw diwygiedig.[4] Erbyn hyn mae Deddf Elusennau 2006 yn cynnwys hyrwyddo hawliau dynol fel un o'r disgrifiadau o ddibenion a all fod yn elusenno.[5]

Gall elusen hybu hawliau dynol mewn sawl ffordd ar lefel ymarferol, er enghraifft:

- monitro gweithredu'n groes i hawliau dynol;
- ceisio cywiro camarfer i ddioddefwyr troseddau hawliau dynol;
- lleddfu angen dioddefwyr troseddau hawliau dynol;
- ymchwil i faterion hawliau dynol;
- addysgu'r cyhoedd am hawliau dynol;
- darparu cyngor technegol i'r llywodraeth ac eraill ar faterion hawliau dynol;
- cyfrannu at weinyddiad cadarn y gyfraith hawliau dynol;
- cynnig sylwadau ar ddeddfwriaeth hawliau dynol arfaethedig;
- codi ymwybyddiaeth o faterion hawliau dynol;
- hybu cefnogaeth gyhoeddus i hawliau dynol;
- hybu parch at hawliau dynol ymysg unigolion a chorfforaethau;
- hyrwyddo hawliau dynol yn rhyngwladol; neu
- ddileu troseddau hawliau dynol.[6]

Mae'r adroddiad hwn yn cymryd golwg ansoddol ar nifer fach o elusennau hawliau dynol ar y Gofrestr, wedi'i ategu gan ddadansoddiad o'r data sydd gennym ar y Gofrestr Elusennau Ganolog i ddangos patrymau cofrestru a'r tueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

3 Adran 4.41, *Gweithredu Preifat, Budd Cyhoeddus: Adolygiad o Elusennau a'r Sector Di-elw Ehangach*, Swyddfa'r Cabinet (2002).
4 *Hybu Hawliau Dynol* (RR12), Comisiwn Elusennau (2005).
5 Bydd hyrwyddo hawliau dynol er budd y cyhoedd yn ddiben elusennol ynddo'i hun pan ddaw'r disgrifiadau o ddibenion elusennol yn Neddf Elusennau 2006 i rym yn 2008.
6 Mae'r enghreifftiau hyn i'w gweld yn ein cyhoeddiad *Hybu Hawliau Dynol* (RR12), Comisiwn Elusennau (2005), lle y disgrifir sut y gall y diben gael ei hyrwyddo ac esbonnir yr hyn a olygwn wrth y gwahanol ymadroddion.

2. Am elusennau hawliau dynol

2.1 Patrymau cofrestru

Mae 206 o elusennau wedi mabwysiadu amcanion gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â hawliau dynol ers i Gofrestr Elusennau Cymru a Lloegr gael ei sefydlu. Mae 14 elusen wedi cael eu dileu wedi hyn. Mae'r elusennau hyn yn ffurfio dim ond 0.1% o'r 168,794 o 'brif' elusennau ar y Gofrestr, ond mae eu hincwm blynyddol cyfunedig yn cynrychioli bron 0.4% o holl incwm cyffredinol elusennau cofrestredig.

Mae'r nifer fach sydd dan sylw yn adlewyrchu'r pwyslais cymharol newydd ar bwysigrwydd hawliau dynol yn y gymdeithas, a'n cydnabyddiaeth ddiweddar ein hunain o hybu hawliau dynol fel achos elusennol ynddo'i hun.

Cofrestriadau elusennau ers 1960



Mae tueddiadau yn y cofrestriadau yn dangos bod y cynnydd amlwg yn y deng mlynedd ddiwethaf yn dilyn datblygiadau allweddol ym maes hawliau dynol. Er enghraifft, fe welwyd yr uchafbwynt cyntaf mewn cofrestriadau pan gafodd y ddeddfwriaeth hawliau dynol ei deddfu yn 1998, a'r ail uchafbwynt pan ddaeth y ddeddfwriaeth honno i rym yn 2000. Yn y blynyddoedd diwethaf, bu cofrestriadau yn yr 20au neu'r 30au isel.

Cofrestriadau elusennau fesul blwyddyn ers 1997



Roedd 11 elusen wedi cofrestru gydag amcanion sy'n cynnwys hawliau dynol yn chwe mis cyntaf 2007.

Mae 76% o elusennau ar y Gofrestr gyfan wedi cael eu sefydlu i weithredu mewn ardaloedd lleol ond mae'r mwyafrif o elusennau hawliau dynol (82%) yn gallu gweithredu'n fyd-eang, ac wedi'u sefydlu gyda ffocws daearyddol eang. Ond, yn ymarferol, bydd nifer yn cyfyngu eu gweithgareddau i ardal lai.

Sefydlwyd y gweddill i weithredu mewn ardaloedd lleol yng Nghymru a Lloegr yn unig, yn genedlaethol yn y DU neu'n rhyngwladol yn unig y tu allan i'r DU.

2.2 Maint elusennau hawliau dynol

Fel y nodwyd, mae cyfanswm incwm elusennau hawliau dynol yn fach iawn o'i gymharu â chyfanswm incwm y Gofrestr gyfan. Mae dadansoddiad o'r Gofrestr yn dangos bod maint cyfartalog elusennau hawliau dynol ychydig yn fwy yn gyffredinol na'r cyfartaledd ar gyfer cyfanswm poblogaeth y Gofrestr, sydd efallai i'w ddisgwyl gan fod nifer ohonynt yn gweithio ar lefel ryngwladol yn hytrach na lefel leol.

Ar ddyddiad y gwaith ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn, y tair elusen hawliau dynol fwyaf ar y Gofrestr oedd:

- The United Kingdom Committee for UNICEF,[7] gydag incwm blynyddol o fwy na £61 miliwn;
- The Thailand Burma Border Consortium,[8] gydag incwm blynyddol o fwy na £16 miliwn; ac
- Amnesty International Charity Limited,[9] gydag incwm blynyddol diwethaf o fwy na £13 miliwn.

At ei gilydd, roedd gan 17 elusen incwm blynyddol o fwy nag £1 miliwn.

Fe gewch wybodaeth atodol ar elusennau hawliau dynol yn *Atodiad B*.

2.3 Rôl

Edrychwyd ar y rôl y mae elusennau hawliau dynol yn ei chwarae trwy eu meysydd gweithgaredd. Trwy edrych ar y dibenion y sefydlwyd yr elusennau hyn ar eu cyfer, gwelwyd bod y rhan fwyaf wedi cael eu sefydlu i hyrwyddo addysg y cyhoedd ym maes hawliau dynol (102 o elusennau). Fel arfer, bydd nifer yn gwneud hyn trwy ddarparu gwybodaeth, eiriolaeth neu gyngor. Bydd eraill yn noddi neu'n ymgymryd â gwaith ymchwil yn y maes. Mae modd esbonio'r pwyslais hwn ar addysg trwy amseriad eu cofrestriad: bydd nifer wedi cael eu cofrestru cyn i ni wneud hawliau dynol yn ddiben elusennol ynddo'i hun.

Mae'r sampl yn rhannu fel a ganlyn:

- mae gan 54 o elusennau ddibenion cyffredinol i hybu hawliau dynol mewn ffyrdd sy'n elusennol;
- mae gan 44 o elusennau amcanion sy'n cynnwys rhoi cymorth i ddioddefwyr troseddau hawliau dynol (os yw eu hanghenion yn ymwneud â thlodi, salwch neu drallod); ac
- mae gan 48 o elusennau fathau eraill o amcanion sy'n ymwneud â hawliau dynol y tu allan i addysg, rhoi cymorth i ddioddefwyr neu hybu hawliau dynol.[10]

Mae gan nifer o elusennau hawliau dynol ddibenion elusennol ychwanegol hefyd sy'n cyd-fynd â'u gweithgareddau hawliau dynol yn yr ardal o fudd o'u dewis, er enghraifft:

- cynnal a diogelu iechyd da;
- hyrwyddo'r grefydd Iddewig;
- hybu gweinyddu'r gyfraith yn dda;
- meithrin gallu'r gymuned;
- hybu cytgord hiliol;
- hybu datblygiad cynaliadwy;
- hybu gwelliant moesol a meddyliol;
- cadwraeth a gwarchod yr amgylchedd; a
- hybu buddsoddiad moesegol er budd cyhoeddus.

7 *"a) hybu hawliau dynol i blant (fel y nodwyd yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a chonfensiynau a datganiadau perthnasol eraill y Cenhedloedd Unedig, ac offerynnau hawliau dynol rhyngwladol a rhanbarthol perthnasol eraill) ledled y byd..."* [darn]; rhif cofrestr 1072612.
8 *"...a (d) hybu hawliau dynol (fel y pennir yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol a Chonfensiynau a Datganiadau dilynol y Cenhedloedd Unedig) yn ardal ffin Gwlad Thai drwy fonitro a gwaith ymchwil."* [darn]; rhif cofrestru 1109476.
9 *"a) hybu ymchwil i gynnal a pharchu hawliau dynol a chyhoeddi canlyniadau gwaith ymchwil o'r fath; (b) rhoi cymorth i ddioddefwyr troseddau hawliau dynol trwy gymorth elusennol priodol (ac yn arbennig cymorth meddygol, adsefydlu neu ariannol)..."* [darn]; rhif cofrestru 294230.
10 Mae niferoedd yn y paragraff hwn a'r paragraffau cyn hynny yn adio i roi mwy na chyfanswm yr elusennau hawliau dynol oherwydd gall elusennau gael mwy nag un amcan.

"Hyrwyddo addysg y cyhoedd mewn materion amgylcheddol, cadwraeth a gwarchod yr amgylchedd naturiol a'i ddatblygiad cynaliadwy ac achosion ac effeithiau dirywiad amgylcheddol; ..."

The Global Witness Trust[11]

"Hybu er budd y cyhoedd a lleddfu tlodi mewn unrhyw ran o'r byd, yn arbennig trwy hybu unrhyw ddiben elusennol i ysgogi gwelliannau yn yr amodau byw yn y gymuned a thramor, trwy ... darparu gwybodaeth trwy ddefnyddio'r rhyngrwyd a thechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu eraill fel dull o ateb anghenion elusennol y cymunedau tlotaf a thrwy ddarparu offer hyfforddi i'r cymunedau tlawd er mwyn cynnig modd iddynt gyrchu'r wybodaeth uchod ..."

Kenyan Action Mission[12]

"Hyrwyddo addysg y cyhoedd yn arbennig (ond heb gyfyngiad) yn y meysydd canlynol ... y celfyddydau cain, yn arbennig (ond nid yn unig) celfyddydau cerddoriaeth, drama, paentio, cerflunwaith a llenyddiaeth."

The Tom Paine Project[13]

2.4 Proffil

Fe welwyd bod elusennau hawliau dynol, o ran eu trefniadau llywodraethu, yn debyg yn fras i elusennau eraill ar y Gofrestr. Mae maint cyfartalog byrddau ymddiriedolwyr elusennau hawliau dynol, er enghraifft, a'r math o strwythur llywodraethu y maent wedi'u mabwysiadu yn adlewyrchu tueddiadau ar draws y Gofrestr gyfan.

Fodd bynnag, roedd un maes lle yr oedd elusennau hawliau dynol yn wahanol. Mae dadansoddiad o'r mathau o faterion y gofynnir i ni fel rheolydd ymdrin â nhw gan neu am elusennau yn dangos bod elusennau hawliau dynol yn fwy tebygol o ddenu cwynion am natur eu gwaith neu'r ffordd y mae'r elusen yn cael ei gweld. Yn gyffredinol roedd y cwynion a gawsom am yr elusennau hyn yn fwy nag ar gyfer mathau eraill o elusennau.

Ond yn ffodus cafodd y mwyafrif o'r rhain eu datrys yn gyflym ac roeddent wedi deillio o gamddealltwriaeth ynghylch gwaith yr elusennau. Ond mae'r nifer uwch na'r cyfartaledd o'r mathau hyn o achosion yn adlewyrchu natur ddadleuol a phroffil uchel eu gwaith yn aml, ac yn cadarnhau pryderon yr elusennau hyn, a nodir isod, ynghylch yr anawsterau a gânt wrth geisio cyfleu eu neges.

11 Rhif elusen gofrestredig 1071946.
12 Rhif elusen gofrestredig 1113803.
13 Rhif elusen gofrestredig 1079892.

3. Themâu sy'n dod i'r amlwg

Er mwyn deall beth mae rhai elusennau hawliau dynol yn ei feddwl a'r materion a wynebant, cynhaliwyd gwaith ymchwil ansoddol pellach, gan ymweld â saith elusen sy'n gweithio ym maes hawliau dynol. Daeth sawl thema gyffredin i'r amlwg.

3.1 Yr elusennau

Dewiswyd yr elusennau y cyfwelwyd â nhw i gwmpasu ystod eang o weithgareddau hawliau dynol ar draws ystod o wledydd. Roedd amcanion gan bob un ohonynt oedd yn cynnig modd iddynt weithredu'n genedlaethol ac yn rhyngwladol. Os oedd ffocws daearyddol penodol gan yr elusen ar gyfer ei phrif ymdrechion, nodwyd hynny isod. Fe gewch fanylion pellach am yr holl elusennau hyn ar y Gofrestr Elusennau ar ein gwefan.

Anti-Slavery International[14]
Mae Anti-Slavery International yn elusen yn y band incwm £1 miliwn a mwy. Nod yr elusen yw dileu pob math o gaethwasiaeth ledled y byd. Gwna hyn trwy wahanol ddulliau, gan gynnwys:

- gwneud gwaith ymchwil ac adrodd ar gaethwasiaeth heddiw;
- ymgyrchu a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd am fodolaeth barhaus caethwasiaeth;
- cydweithio'n agos â'r rhai y mae'n ceisio diogelu eu hawliau trwy adeiladu cynghreiriau gweithredol yn seiliedig ar barchu ein gilydd a thryloywder; ac
- adnabod a herio cyfundrefnau a systemau gormesol sy'n cadw pobl mewn caethwasiaeth.

Article 19 Research and Information Centre on Censorship[15]
Mae Article 19 Research and Information Centre on Censorship yn elusen yn y band incwm £1 miliwn a mwy. Nod yr elusen yw addysgu'r cyhoedd trwy hybu a diogelu rhyddid i ddatgan barn a rhyddid gwybodaeth a syniadau ledled y byd o fewn ystyr erthygl 19 y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. Mae'n gweithio mewn partneriaeth â mwy nag 80 o sefydliadau cenedlaethol er mwyn sicrhau newid sefydliadol, diwylliannol a chyfreithiol parhaol. Mae rhai o'i gweithgareddau yn cynnwys:

- ymchwilio, monitro ac adrodd ar sensoriaeth a chamdriniaethau yn erbyn y cyfryngau;
- darparu arbenigedd cyfreithiol/polisi a gosod safonau er mwyn sicrhau bod gwarantau cyfreithiol a pholisïau blaengar yn cael eu datblygu er gyfer diogelu rhyddid y wasg a rhyddid i ddatgan barn;
- dadlau dros barchu a diogelu'r hawl i gael gwybodaeth er mwyn sicrhau tryloywder a chryfhau cyfranogiad dinasyddion;
- cryfhau hawl grwpiau agored i niwed i gael llais a'r hawl i wybod trwy adeiladu gallu a chlymbleidiau gyda'r cyfryngau, sefydliadau menywod, iechyd yr amgylchedd a sefydliadau lleiafrifol; ac
- adeiladu galluoedd cenedlaethol, darparu hyfforddiant a chymorth wedi'i dargedu, cynhyrchu adnoddau, cyfreithiau enghreifftiol, egwyddorion etc.

British Irish Rights Watch[16]
Mae British Irish Rights Watch yn elusen sy'n gallu gweithredu ym Mhrydain, Iwerddon a mannau eraill yn y byd ond mae ganddi ffocws arbennig ar Ogledd Iwerddon. Mae yn y band incwm £100,000 - £250,000.

Nod yr elusen yw hybu parchu a chynnal hawliau dynol trwy addysg ac ymchwil; hybu a lledaenu gwybodaeth a dealltwriaeth o hawliau dynol o'r fath trwy gyfnewid gwybodaeth trwy ddulliau eraill; a sicrhau diddymu arteithio, dienyddiadau allfarnwrol ac arestio, cadw ac alltudio mympwyol. Mae'r elusen yn cyflawni'r amcanion hyn trwy:

- ymchwilio i achosion honedig o droseddau hawliau dynol;
- anfon sylwedyddion annibynnol i dreialon, cwestau ac ymchwiliadau;

14 Rhif elusen gofrestredig 1049160.
15 Rhif elusen gofrestredig 327421.
16 Rhif elusen gofrestredig 1048335.

- darparu gwasanaethau ymgynghori i gyfreithwyr;
- cyflwyno achosion i gyrff a sefydliadau hawliau dynol rhyngwladol megis y Cenhedloedd Unedig;
- trefnu seminarau i gyfreithwyr ac eraill;
- gwneud ymyriadau trydydd parti mewn achosion hawliau dynol a darparu tystiolaeth arbenigol;
- cyhoeddi erthyglau ac adroddiadau; a
- threfnu cynadleddau.

Equality Now[17]
Mae Equality Now yn elusen yn y band incwm £100,000 i £250,000. Mae'r elusen yn gweithio gyda sefydliadau ac unigolion hawliau dynol eraill i ddogfennu trais a gwahaniaethu yn erbyn menywod ac yn ysgogi gweithredu rhyngwladol i gefnogi ymdrechion i atal y troseddau hawliau dynol hyn trwy:

- ledaenu gwybodaeth am droseddau hawliau dynol;
- gweithredu i brotestio am y troseddau hyn; a
- dod â throseddau hawliau dynol yn erbyn menywod at sylw'r cyhoedd.

Kurdish Human Rights Project[18]
Mae'r Kurdish Human Rights Project yn elusen yn y band incwm £100,000 i £1 miliwn.

Mae'r elusen wedi'i sefydlu i hybu a diogelu hawliau dynol pobl yn y rhanbarthau Cwrdeg yn Nhwrci, Irac, Iran, Syria a mannau eraill. Mae'n ceisio helpu pobl Gwrdaidd (a'u teuluoedd) sydd mewn angen ac sydd, neu sydd wedi dioddef arteithio neu droseddau eraill yn erbyn eu hawliau dynol. Prif weithgareddau'r elusen yw:

- eiriolaeth a hyfforddiant hawliau dynol;
- darparu cymorth ariannol a chyfreithiol;
- arsylwi mewn treialon a chenadaethau ymchwiliol;
- ymchwilio a dosbarthu gwybodaeth trwy gyhoeddiadau amrywiol; a
- chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd a darparu strategaethau addysg a chyfathrebu.

Reprieve[19]
Mae Reprieve yn elusen sy'n darparu ymchwil rheng-flaen a chynrychiolaeth gyfreithiol i garcharorion nad ydynt yn cael cyfiawnder ledled y byd, o res yr angau i Fae Guantánamo. Mae'n gweithio o fewn fframwaith cyfreithiol - gan weithredu'r gyfraith ddomestig a rhyngwladol fel arf i achub bywydau, sicrhau cyfiawnder a chyflwyno'r achos am ddiwygio byd-eang. Mae yn y band incwm £100,000 - £1 miliwn.

Yn fwy penodol mae ei hymdrechion yn canolbwyntio ar:

- gynrychioli carcharorion sy'n wynebu'r gosb eithaf gan y wladwriaeth yn y gyfundrefn cyfiawnder troseddol gonfensiynol, neu'r rhai sydd y tu allan i gyrraedd y gyfraith;
- blaenoriaethu achosion carcharorion sy'n wynebu'r gosb eithaf, yn arbennig felly yn America neu os yw dinasyddion Prydain dan sylw;
- codi proffil troseddau hawliau dynol ynghylch y gosb eiddo a'r rhyfel ar derfysgaeth, gan addysgu'r cyhoedd ac ysgogi dadl.

Nid yw unrhyw garcharorion y bydd Reprieve yn eu helpu yn gallu fforddio talu am gynrychiolaeth.

Sudan Organisation Against Torture[20]
Mae'r Sudan Organisation Against Torture yn elusen sy'n gweithio yn y Swdan yn bennaf ac mae yn y band incwm £100,000 i £1 miliwn. Prif amcan yr elusen yw atal arteithio a herio anghosbedigaeth. Mae'n gweithio i adsefydlu goroeswyr artaith o'r Swdan ac yn cynnig cymorth cyfreithiol i oroeswyr, ac unigolion sy'n cael eu bygwth gan gosbau creulon a diraddiol. Gwna hyn trwy:

- ddarparu cymorth cyfreithiol;
- darparu triniaeth feddygol ac adsefydlu;
- gwneud gwaith ymchwil;
- eiriolaeth ac ymgyrchu;
- trefnu rhaglen i fenywod, plant a charcharorion;
- darparu gwybodaeth trwy wahanol gyfryngau a rhaglen rhyddid i ddatgan barn; a
- darparu addysg hawliau dynol a rhaglen ymwybyddiaeth.

17 Rhif elusen gofrestredig 1107613.
18 Rhif elusen gofrestredig 1037236.
19 Rhif elusen gofrestredig 1114900.
20 Rhif elusen gofrestredig 1040432.

3.2 Sefydlu'r elusen

Sefydlwyd yr holl elusennau hawliau dynol y cyfwelwyd â nhw o ganlyniad i achos arbennig neu sefyllfa barhaus, mewn ardal neu ranbarth arbennig yn aml.

Er bod y rhan fwyaf yn canolbwyntio ar ardal neu ranbarth arbennig, yn ymarferol, mae amcanion gan bob un ohonynt sy'n cynnig modd iddynt weithio'n ehangach na'u maes gweithredu cyfredol, ond maent wedi dewis canolbwyntio ar ardal arbennig am resymau ymarferol.

Mae'r canlynol yn crynhoi'r rhesymau pam y sefydlwyd pob un o'r elusennau:

- o ganlyniad i wrthdaro yng Ngogledd Iwerddon;
- ar ôl bod ar flaen y gad yn y symudiad i ddiddymu'r fasnach gaethweision;
- ar ôl sylweddoli bod angen cynyddol am sefydliad anllywodraethol amhleidiol sy'n gallu canolbwyntio ar hawliau'r holl bobl yn y gwahanol ardaloedd Cwrdaidd;
- yn dilyn pryderon am sensoriaeth a chyfyngiadau eraill ar ryddid i lefaru ledled y byd;
- o ganlyniad i angen a nodwyd i gynrychioli a chynorthwyo pobl sy'n byw ar res yr angau, wedi'u hadnabod gan gyfreithiwr o Brydain sy'n gymwys i weithio yn UDA a oedd wedi gweithio gyda nifer o gleientiaid y gosb eithaf;
- gan grŵp o ddioddefwyr a oedd wedi dianc o'r wlad ar ôl gael eu harteithio, ac eisiau gwneud rhywbeth i helpu cydweithwyr a oedd yn parhau i fod yn y wlad; a
- phenderfynodd elusen sefydledig yn UDA sy'n gweithio i hybu a diogelu hawliau dynol menywod ledled y byd fod angen canolfan y tu allan i UDA oherwydd amrywiaeth ei gwaith. Dewiswyd Llundain fel safle allweddol (ynghyd ag un arall yn Nairobi) er mwyn manteisio ar y gwaith eiriolaeth a rhwydweithiau cyfathrebu da o fewn yr Undeb Ewropeaidd.

Dywedodd rhai o'r elusennau wrthym am yr anawsterau wrth ffurfio'r sefydliadau i gychwyn. Roedd dwy agwedd i hyn: i un elusen, roedd natur ddadleuol ei gwaith arfaethedig, sef materion hawliau dynol yng Ngogledd Iwerddon, yn golygu bod peth amheuaeth ymysg y cyhoedd am y cymhellion y tu ôl i ffurfio'r sefydliad, ac a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gwrthdaro ar yr un ochr neu'r llall. I eraill, bu'n anodd penderfynu bod dibenion yr elusennau hyn, er eu bod yn amlwg yn haeddiannol, yn elusennol yn ystyr manylaf y gair, oherwydd eu bod wedi ceisio cofrestru cyn Deddf Hawliau Dynol 1998, a oedd yn cynnwys llawer o ddeddfwriaeth y Comisiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn y gyfraith ddomestig, ac yna derbyn hyrwyddo hawliau dynol fel diben elusennol.

Dywedodd un elusen wrthym ei bod wedi gweithio'n galed i adeiladu ei henw da a phrofi ei statws fel sefydliad amhleidiol ac annibynnol. Mae ansawdd gwaith ymchwil y sefydliad wedi ei helpu i adeiladu ei barchusrwydd ac enw da, i'r fath raddau fel bod elusennau mwy megis Amnest Rhyngwladol yn dibynnu arno am wybodaeth ac ymchwil.

3.3 Annibyniaeth

Roedd pwysigrwydd annibyniaeth yn thema a gododd yn y rhan fwyaf o'r elusennau a gyfwelwyd. Er enghraifft, dywedodd sawl un wrthym nad oedd yn bolisi ganddynt i dderbyn cyllid llywodraeth i gynnal graddfa o annibyniaeth. Dywedodd un wrthym na fyddent yn derbyn unrhyw gyllid gan unrhyw sefydliadau neu gyrff, boed yn llywodraethol neu'n anllywodraethol, neu gan unrhyw un gyda chysylltiadau â nhw yn eu maes gweithredu, sef y rhanbarthau Cwrdaidd. Yn lle hynny, daw cyllid yr elusen o ymddiriedolaethau a sefydliadau rhoi grantiau elusennol a ffynonellau anstatudol o bob cwr o'r byd. Dywedodd dwy elusen eu bod yn cynnal eu hannibyniaeth ar Lywodraeth Prydain oherwydd teimlent y gallai fod yn niweidiol i'w gwaith.

Roedd elusen arall, yn gweithredu yng Ngogledd Iwerddon, wedi sôn am ei hangen i fod yn annibynnol ar grwpiau hollt ac enwadol. Teimlai fod cael canolfan yn Llundain, ac felly y tu allan i'r ardal yr oedd yn canolbwyntio arni, yn annog rhai pobl i gysylltu â'r sefydliad oherwydd nid oedd 'ar stepen drws'. Felly roedd unigolion yn dawel eu meddwl ynghylch cyfrinachedd.

3.4 Canfyddiad y cyhoedd

Un thema gyffredinol yw bod elusennau sy'n gweithio ym maes hawliau dynol yn ei chael hi'n anodd i gael cymorth ar gyfer y materion y maent yn delio â nhw. Er enghraifft, teimlai un elusen fod nifer o bobl yn credu nad yw caethwasiaeth yn fater sy'n berthnasol yn y gymdeithas sydd ohoni er gwaetha'r ffaith ei fod yn bodoli mewn sawl ffurf wahanol, megis masnachu mewn pobl a thaeogaeth.

Dywedodd un arall wrthym ei bod hi'n anodd yn aml i gael sylw'r cyhoedd ar ymgyrch arbennig oherwydd ei bod yn digwydd mewn man arall, felly ni fyddai rhai pobl yn perthnasu â'r mater ac yn ei ddiystyru fel problem rhywun arall. Er mwyn ceisio datrys hyn, mae'r elusen wedi canolbwyntio ar achosion unigolion yn eu hadroddiadau. Mae hyn yn tynnu sylw at y materion dan sylw a hefyd yn cynnig rhywun y gall y gynulleidfa berthnasu ag ef.

Dywedodd yr elusen hon wrthym hefyd bod ei gwaith yn heriol a gall fod yn anodd weithiau oherwydd gall troseddau hawliau dynol yn erbyn menywod gael eu priodoli fel rhywbeth sy'n rhan o ddiwylliant, crefydd neu draddodiad cymdeithas. Er mwyn osgoi hyn, mae'r elusen yn gweithio gyda grwpiau o fewn y diwylliannau, crefyddau neu draddodiadau hynny sy'n gwrthwynebu troseddau o'r fath er mwyn cael mwy o lais yn y byd mawr.

Dywedodd yr elusen wrthym hefyd bod ei gwaith yn gofyn am drefnu gofalus. Oherwydd natur y materion yr ymdrinnir â nhw, fel llurgunio organau cenhedlu menywod a smwddio bronnau, rhaid i ymgyrchoedd a chyflwyniadau o'r casgliadau gael eu gwneud mewn ffordd nad yw'n peryglu unplygrwydd neu enw da'r elusen trwy sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n cynnal diddordeb y cyfryngau, ond nid yw'n rhywioli'r mater.

Dywedodd elusen arall, sy'n gweithio dros ryddid i lefaru, y gall hyn fod yn bwnc dadleuol. Mae ei mandad yn seiliedig ar safonau hawliau dynol rhyngwladol, ac felly nid yw'n cymryd safiad absoliwtaidd ar ryddid i lefaru sy'n golygu ei bod yn agored i feirniadaeth gan y sefydliadau a'r bobl hynny sy'n cymryd safiad o'r fath. Er enghraifft, mae'n cydnabod bod cyfyngiadau cyfreithlon, o dan y gyfraith hawliau dynol rhyngwladol, ar ryddid i lefaru neu ryddid y wasg. Gall y cyfyngiadau hyn fod yn ormod i'r rhai sy'n dadlau dros ymagwedd fwy absoliwtaidd, a rhy ychydig i nifer ymysg y cyhoedd yn gyffredinol. Mae addysg yn allweddol, ond mae adnabod yr ymagwedd gywir yn anodd oherwydd mae angen neilltuo amser ar gyfer y mathau hyn o weithgareddau codi ymwybyddiaeth.

Dywedodd un elusen wrthym fod noddwyr a'r cyhoedd yn credu ar gam yn aml bod yr elusen yn ymwneud mewn rhyw ffordd â'r gwrthdaro y cafodd ei sefydlu i helpu ei datrys.

"Nid yw hwn yn achos 'cysurus' iawn." **Reprieve**

Roedd sawl un o'r elusennau y buom yn siarad â nhw wedi pwysleisio mai rhan o'u rôl oedd addysgu'r cyhoedd. Er enghraifft, dywedodd un elusen wrthym ei bod yn addysgu'r cyhoedd trwy dynnu sylw at y materion sy'n berthnasol i'r maes hawliau dynol; yn achos yr elusen hon mewn perthynas â'r gwrthdaro yng Ngogledd Iwerddon. Dywedodd un arall wrthym am yr anawsterau a gafodd o ran addysgu'r cyhoedd am ei gwaith ym maes hawliau dynol, megis esbonio holl linynnau ei gwaith o fewn cyfweliad byr neu erthygl. Dywedodd yr elusen hon wrthym hefyd ei bod yn wynebu sialensiau ynghylch ei delwedd oherwydd roedd yn credu bod rhai sefydliadau yn camddefnyddio'r faner hawliau dynol, sy'n gallu cael effaith andwyol ar enw da sefydliadau hawliau dynol cyfreithlon.

3.5 Cyfleu'r neges

Cafwyd ymatebion cymysg gan yr elusennau am eu perthynas â'r cyfryngau, yn amrywio o'r rhai sy'n cyflogi swyddogion y wasg, neu'n defnyddio'r cyfryngau i helpu rhoi cyhoeddusrwydd i achos arbennig, i'r rhai a ddywedodd wrthym eu bod yn cyfyngu'n fwriadol ar unrhyw sylw a gaiff yr elusen yn y wasg.

Dywedodd un elusen nad oedd yn mynd ati'n rhagweithiol i gysylltu â'r wasg trwy gyhoeddi nifer o ddatganiadau'r wasg - mae wedi rhyddhau tua chwech yn unig yn ystod y cyfnod y bu'n weithredol - oherwydd ni all ymdopi â'r gwaith a gynhyrchir gan y math hwn o sylw. Fodd bynnag, roedd yn cael llawer o gyhoeddusrwydd a sylw yn y wasg oherwydd ei henw da fel arbenigwr yn ei maes ei hun. Ond dywedodd hefyd ei bod yn credu bod mater addysgol dan sylw yma ac nid yw sylw yn y wasg bob amser yn ddefnyddiol oherwydd ei fod yn anodd i gyfleu natur gymhleth sefyllfaoedd hawliau dynol mewn 'pytiau' ar gyfer straeon newyddion. At hynny, mae'n neges anodd i'w chyfleu bod hawl i unigolyn gael hawliau dynol sylfaenol er iddo fod yn euog o drosedd.

Mae gan elusen arall strategaeth ragweithiol iawn o ran y wasg, gan gyhoeddi tua 6 datganiad i'r wasg yr wythnos i dynnu sylw at bryderon arbennig yn y byd neu gyhoeddi gweithgaredd pwysig neu adrodd ei fod yn ei lansio. Ond er y gall gael sylw da yn y wasg yn y gwledydd lle mae'n gweithio, nid yw mor hawdd cael sylw yn y wasg ryngwladol, DU neu yn y Gorllewin. Er y bydd y cyfryngau yma yn cysylltu â'r elusen am sylwadau mewn ymateb i argyfyngau, prin iawn yw'r achosion hyn fel arfer.

Er bod angen i'r cyfryngau roi cyhoeddusrwydd i achos arbennig neu addysgu'r cyhoedd, dywedodd elusen arall wrthym fod ei pherthynas â'r cyfryngau yn gallu bod yn heriol. Er enghraifft, pan fyddant yn codi ymwybyddiaeth am rai materion mae'n rhaid iddynt fod yn ofalus i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n cynnal diddordeb y cyhoedd heb gamddehongli neges yr elusen.

Dywedodd dwy elusen wrthym eu bod yn defnyddio'r cyfryngau i hybu hawliau dynol. Mae swyddogion y wasg gan un elusen, er enghraifft, ac mae'n cynhyrchu briffiau gweithredu a chylchgrawn chwarterol. Mae un arall yn cyfeirio at sylw yn y cyfryngau darlledu a'r wasg fyd-eang yn eu hadroddiad blynyddol ar effaith.

Rhoddodd un elusen enghraifft arloesol iawn o sut yr oedd wedi defnyddio cyfrwng gwahanol i dynnu sylw at fater: roedd wedi cynhyrchu drama yn Llundain yn seiliedig ar stori wir dyn oedd yn dioddef problemau iechyd meddwl ac yn wynebu'r gosb eithaf. Defnyddiodd yr elusen y nifer yn y gynulleidfa i fesur llwyddiant hwn fel ffordd o roi cyhoeddusrwydd i'w gwaith.

Roedd un elusen yn pryderu y bydd yr hinsawdd o ddeddfwriaeth gwrthderfysgaeth yn dwysáu ofn pobl a gall greu bwlch rhwng sectorau yn y gymdeithas. Mae'n bosibl y gallai hyn danseilio hawliau dynol. Felly mae'r elusen yn ystyried gwaith allgymorth i helpu addysgu pobl am hawliau dynol.

3.6 Cyllido

Mae cyllido yn fater cyson i'r rhan fwyaf o elusennau ac roedd y rhai yr oeddem wedi cwrdd â nhw wedi trafod eu trefniadau cyllido cyffredinol, gan roi enghreifftiau o brofiadau cadarnhaol a negyddol.

Dywedodd un elusen fod cynnal a chryfhau cymorth craidd neu anghyfyngedig yn bryder mawr, fel y mae i nifer o elusennau eraill. Er hynny, mae'r cymorth hwn yn hanfodol oherwydd mae'n rhoi'r hyblygrwydd y mae ei angen ar y sefydliadau i ymateb i argyfyngau a chyfleoedd wrth iddynt godi. Y maes problematig arall yw denu cyllid ar gyfer prosiectau arloesol neu ddadleuol. Ond, ar ôl cael y cyllid, mae gan brosiectau o'r fath y potensial i ddatblygu'n safonau neu bolisïau sefydledig, megis prosiect diweddar yr elusen hon ym maes cael at wybodaeth a hawliau rhywiol ac atgenhedlu. Er hynny, mae'n well gan rai rhoddwyr gyllido prosiectau llai dadleuol.

Nododd yr elusen hon hefyd nad yw'r diwylliant o roi symiau mawr mewn cymdeithasau Ewropeaidd wedi'i datblygu cystal o'i gymharu â'r Unol Daleithiau.

Dywedodd elusen arall wrthym ei bod yn teimlo bod paratoi adroddiadau i noddwyr yn fwy cymhleth dros amser. Mae'n rhaid iddi ddarparu gwybodaeth i noddwyr mewn fformatau amrywiol. Mae rhai noddwyr eisiau gwybod sut y cafodd pob unigolyn ei helpu a beth oedd cost hwn, roedd eraill yn gofyn am ffigurau cyffredinol ar wariant cyfartalog a nifer y bobl a gafodd eu helpu.

Dywedodd un arall, er mwyn cynnal ei hannibyniaeth, nid yw'n derbyn unrhyw arian oddi wrth unrhyw sefydliadau neu gyrff, boed yn rhai llywodraethol neu anllywodraethol, nac unrhyw un sydd â chysylltiadau â nhw, yn yr ardal lle y mae'n

gweithredu. Hefyd, nododd yr anawsterau a wynebir o ran cyllid:

- mae elusennau hawliau dynol i gyd yn pysgota yn yr un pwll am noddwyr i'w cynorthwyo yn ariannol;
- mae'n ymddangos bod ofn gan gorfforaethau mawr enwebu elusennau hawliau dynol fel yr elusen y mae'n ei chefnogi oherwydd bod y cyhoedd yn credu bod elusennau hawliau dynol yn wleidyddol;
- bu achosion lle mae darpar noddwyr wedi ceisio dylanwadu ar yr elusen er mwyn cyflawni ei hamcanion a'u nodau eu hunain (pwysleisiodd cynrychiolwyr yr elusen eu bod yn cynnal eu hannibyniaeth ac ni fyddent yn ystyried noddwr a oedd yn gofyn y fath beth ac nid oedd yn cyd-fynd â'u hamcanion); a
- bydd noddwyr yn aml eisiau gweld canlyniadau pendant a all fod yn anodd i'r elusen eu rhoi o fewn cyfnod penodol o amser.

Dywedodd un elusen ei fod yn well gan noddwr statudol a oedd yn darparu peth o'i chyllid aros hyd braich o achosion hawliau dynol llawr gwlad ac yn lle hynny roedd yn rhoi cyllid i'r elusen er mwyn rhoi'r cymorth a oedd ei angen.

O ran cyllido gweithgareddau penodol, roedd un elusen a oedd yn delio â hawliau menywod wedi canfod bod cael adnoddau ar gyfer eu gwaith yn broblem, oherwydd nid oes llawer o gyllid ar gael ar gyfer yr achos hwn yn benodol ac mae polisi gan yr elusen o beidio â derbyn cyllid gan y llywodraeth.

Dywedodd nifer o elusennau wrthym fod trefniadau cyllido amrywiol ganddynt, gyda'r mwyafrif o'r elusennau y cyfwelwyd â nhw yn rhestru mwy na phum gwahanol noddwr yn eu cyfrifon. Roedd ffynonellau cyllido yn amrywio o roddwyr unigol a oedd yn well ganddynt aros yn ddienw i sefydliadau rhoi grantiau rhyngwladol a llywodraethau'r DU neu dramor. Er enghraifft, mae un elusen yn derbyn 35% o'i chyllid o ymddiriedolaethau a sefydliadau a 65% o noddwyr statudol gan gynnwys yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol, llywodraethau Gwyddelig ac Isalmaenig, yr Undeb Ewropeaidd a sefydliadau mawr eraill.

Dywedodd un arall wrthym, yn ei dyddiau cynnar, roedd un noddwr mawr, adnabyddus wedi gwrthod ei chyllido ar sawl achlysur. Roedd cael ei chofrestru fel elusen, yn ogystal â'r noddwr yn gweld enw da'r elusen yn gwella a'i pharchusrwydd yn cael ei brofi, wedi helpu i newid barn y noddwr, sydd yn cyfrannu at waith yr elusen erbyn hyn. Mae gan y Cyfarwyddwr flynyddoedd o brofiad o godi arian ac yn gwybod sut i feithrin perthynas weithio da â noddwyr; pan fydd yr elusen wedi sicrhau noddwyr, mae'n tueddu i'w cadw. Mae elusen arall, yn ogystal â chydymffurfio â gofynion adrodd y noddwyr, hefyd yn eu gwahodd i ddigwyddiadau ac mae'r Cyfarwyddwr yn anfon gohebiaeth gyson yn disgrifio'r gweithgareddau.

Mae'r elusen hon hefyd wedi neilltuo arian o gymynrodd a wnaed gan gadeirydd blaenorol ar gyfer dirwyn yr elusen i ben pan ddaw'r amser, ac mae'n bwriadu cofnodi hanes yr elusen at ddibenion archifo, oherwydd cred y bydd yn astudiaeth achos dda ar gyfer elusennau hawliau dynol eraill yn y dyfodol.

3.7 Llwyddiannau a gwneud gwahaniaeth

Roedd nifer o'r elusennau y cyfwelwyd â nhw wedi sôn am gyraeddiadau unigol trwy adroddiadau ar effaith neu gyfryngau eraill ac wedi darparu enghreifftiau penodol o lwyddiannau allweddol o ran gwneud gwahaniaeth.

Er enghraifft:

- Dywedodd un ei bod wedi profi'n rhyngwladol bod cael mecanweithiau hawliau dynol yn eu lle yn gallu gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau unigolion a chymunedau.
- Yn dilyn cyfnod hir o bwyso gan elusen arall, a thrwy gydweithio â sefydliadau lleol eraill, roedd cyfraith wedi cael ei phasio yn y wlad honno yn datgan bod taeogaeth yn anghyfreithlon.
- Ym marn un elusen, un o'i phrif lwyddiannau oedd adeiladu fframweithiau cyfreithiol a helpu llywodraethau gwledydd democrataidd newydd.
- Dywedodd un arall wrthym fod ei gweithredu wedi cyfrannu at arwyddo cytundeb heddwch cynhwysfawr sydd wedi arwain at fesur hawliau, gan arwain y ffordd at amgylchedd gwaith gwell.

Yn olaf, cafodd argymhellion elusen arall ar fynediad i wybodaeth a deddfwriaeth rhyddid gwybodaeth eu mabwysiadu yn Cambodia, Macedonia, gwladwriaeth Kelantan ym Malaysia, Mongolia a Nepal; a chafodd ei hargymhellion ar fesurau neu arferion amrywiol y cyfryngau a difenwad eu mabwysiadu neu'n bwnc dadleuon mawr yn Cambodia, Nepal, Moldova, Hong Kong, Cenia, Fiji a De Swdan.

3.8 Dangos effaith

Roedd nifer o'r elusennau yn gallu dweud wrthym sut y maent yn mesur effaith eu gwaith ac roedd y rhan fwyaf wedi darparu tystiolaeth gadarnhaol ar gyfer hyn. Er enghraifft:

- roedd rhai wedi nodi eu cyraeddiadau mewn adroddiadau penodol at ddibenion adrodd ar effaith;
- roedd rhai elusennau wedi dyfynnu enghreifftiau o'r ffyrdd penodol ymarferol y maent wedi'u nodi i fesur canlyniadau; er enghraifft, mae un elusen nid yn unig yn cyfrif nifer y caethweision a gafodd eu rhyddhau ond yn ogystal â hyn, mae hefyd wedi datblygu cyfres o effeithiau ac amcanion a ddefnyddir i gytuno ar flaenoriaethau rhaglenni ac ymgyrchoedd; a darparu rhai mesurau mwy tymor hir y gall yr elusen farnu ei gwaith a'i llwyddiannau yn eu herbyn, megis monitro adsefydlu unigolion wedi'u rhyddhau a gweithredu, gorfodi ac effaith deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â hawliau dynol; ac
- roedd eraill yn mesur effaith mewn ffyrdd gwahanol, er enghraifft, cyflwyno trafodaethau pendant ar fecanwaith newydd o fewn y Cenhedloedd Unedig sy'n canolbwyntio ar ddileu cyfreithiau sy'n gwahaniaethu yn erbyn menywod.

Fodd bynnag, roedd ein gwaith ymchwil wedi tynnu sylw at y sialensiau y mae rhai elusennau yn eu hwynebu wrth ddangos eu heffaith, yn ogystal â sut yr oeddent wedi cael hyd i atebion ymarferol i'r sialensiau hyn:

- Dywedodd un elusen wrthym ei bod hi'n anodd yn aml i gael ffeithiau neu ffigurau pendant ac weithiau roedd rhaid iddi ddibynnu ar dystiolaeth anecdotaidd i ddangos gwir raddfa ei heffaith, yn enwedig mewn achosion lle byddai mesur yn cynnwys ceisio gwerthuso lle nad oedd unrhyw beth wedi digwydd - er enghraifft, dim achosion o droseddau yn erbyn hawliau dynol, lle y byddai hynny'n debygol cyn hynny. Fodd bynnag, rhoddodd un enghraifft lle yr oedd wedi gweithio gyda'r heddlu, y llywodraeth a gweinyddiaethau lleol i orfodi cyfraith nad oedd yn weithredol. Roedd hyn wedi creu lleihad mesuradwy mewn troseddau hawliau dynol yn y wlad dan sylw ac yn golygu bod yr elusen wedi adnabod ffordd arall i fesur ei heffaith.
- Dywedodd un arall wrthym fod noddwyr yn aml eisiau gweld canlyniadau pendant a all fod yn eithaf anodd i'r elusen eu cyflawni mewn cyfnod penodol o amser. Ond roedd wedi cynhyrchu adroddiad ar effaith yn tynnu sylw at ei llwyddiannau. Roedd yr adroddiad yn cynnwys, er enghraifft, nifer yr adroddiadau ymchwil yr oedd wedi'u cynhyrchu, nifer y treialon a arsylwyd a nifer yr ymweliadau i'w gwefan.
- Dywedodd un elusen wrthym y gallant fesur effaith yn uniongyrchol trwy nifer y bobl sy'n cael eu trin a'u helpu, a thrwy'r sialensiau cyfreithiol a godwyd, ond gall fod yn anodd mesur yr olaf yn gywir oherwydd y diffygion a geir gyda'r gyfundrefn gyfreithiol.

Darparu tystiolaeth ar gyfer noddwyr oedd y cymhelliant ar gyfer o leiaf un elusen i adrodd ar lwyddiannau ac yn ei dro, byddai'r noddwr hwn yn asesu sut yr oedd proffil yr elusen wedi gwella trwy ei phresenoldeb yn y cyfryngau.

Yn olaf, dywedodd un elusen fod dangos effaith tymor byr gweithgareddau sy'n ceisio sicrhau newidiadau diwylliannol a sefydliadol parhaol ym maes rhyddid i fynegi barn yn creu anawsterau penodol. Hefyd, mae'n anodd hawlio llwyddiant neu effaith arbennig oherwydd mae'n bosibl bod asiantaethau neu ffactorau eraill wedi gwneud cyfraniad sylweddol at y newid.

3.9 Osgoi dyblygu gwaith a gweithio mewn partneriaeth

Dywedodd un elusen fod sylfaenwyr yr elusen, cyn ei sefydlu, wedi cynnal astudiaeth ddichonoldeb a oedd wedi dangos nad oedd unrhyw sefydliad annibynnol yn gweithio ar dynnu sylw at y troseddau hawliau dynol ofnadwy yn y maes hwn.

Mae gan un achos, a sefydlwyd yn wreiddiol yn yr Unol Daleithiau, swyddfeydd yn Nairobi a Llundain erbyn hyn. Mae'r tri safle i gyd yn gweithio tuag at yr un achos yn y pen draw, ond mae pob rhan o'r sefydliad yn osgoi dyblygu gwaith trwy ganolbwyntio ar agwedd wahanol ar y gwaith.

Dywedodd un arall wrthym ei bod yn cynnal astudiaeth ddichonoldeb ar yr holl bartneriaid posibl er mwyn sicrhau bod unrhyw waith y bydd yr elusen yn ei wneud yn gost-effeithiol a hefyd yn osgoi dyblygu rolau rhwng partneriaid gweithredol.

Dywedodd un elusen wrthym ei bod yn awyddus i ddatblygu cydweithio â sefydliadu hawliau dynol eraill, ac ar ôl adnabod yn fewnol beth y mae'r elusen yn gobeithio ei gael o'r sefydliad arall, mae'r ddau sefydliad yn cydweithio. Yn gyffredinol, mae'r elusen yn ceisio defnyddio adnoddau ei gilydd, megis rhwydweithiau cyfreithwyr, ac osgoi dyblygu gwaith.

Roedd y rhan fwyaf o elusennau a gyfwelwyd wedi sôn am weithio mewn partneriaeth i hybu amcanion yr elusen. Er enghraifft, dywedodd un elusen wrthym am gydweithio â sefydliadau hawliau dynol eraill a'r Cenhedloedd Unedig, a hefyd cwrdd â sefydliadau Ewropeaidd eraill i drafod materion o bryder i'r ddwy ochr, a chydweithio ar ymgyrchoedd o ddiddordeb i'r ddwy ochr.

Mae elusen arall yn gweithio gydag 80 o bartneriaid gweithredu ar hyn o bryd sy'n weithgar mewn meysydd fel hawliau dynol, rhyddid gwybodaeth, democrateiddio, y cyfryngau, menywod, iechyd a'r amgylchedd. Yn eu tro, mae'r rhain yn cysylltu â thua 100 o sefydliadau llawr gwlad. Mae holl brosiectau'r elusennau wedi'u hanelu at adeiladu gallu ar gyfer sefydliadau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu parhau â'u gwaith yn y dyfodol heb gymorth a chyfranogiad rhyngwladol - neu gymorth a chyfranogiad rhyngwladol cyfyngedig.

Roedd un arall wedi rhoi enghreifftiau ymarferol o sut y mae'n rhoi gweithio mewn partneriaeth ar waith. Yn ddiweddar fe gydweithredodd â Chyfeillion y Ddaear Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, Cornerhouse a Platform yn ogystal â nifer o sefydliadau eraill i weithio ar yr Ymgyrch Baku-Ceyhan. Rôl yr ymgyrch yw sicrhau cyfiawnder amgylcheddol ar osod y bibell Baku-Tbilisi-Ceyhan newydd trwy:

- wella'r systemau ar gyfer monitro'r bibell;
- helpu pobl a chymunedau y troseddwyd yn erbyn eu hawliau; ac
- archwilio effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach y bibell.

Roedd un elusen wedi sôn am yr anawsterau y maent yn eu cael wrth weithio gyda swyddfeydd cangen dramor a bod hyn yn ganlyniad uniongyrchol i natur gwaith y sefydliad. Am resymau risg a diogelwch dros gyfnodau hir, gall cyfathrebu fod yn beryglus a/neu'n araf, a all gael effaith ymarferol ar waith yr elusen, er enghraifft, ar adroddiadau ariannol.

3.10 Ymgyrchu dros bolisi a deddfwriaeth, ei newid neu ei fonitro

Roedd rhai elusennau wedi cyfeirio'n benodol at faterion sy'n ymwneud ag ymgyrchu. Roedd un elusen wedi cydnabod yn benodol bod hwn yn faes anodd lle yr hoffai gael mwy o eglurhad. Yn wyneb hinsawdd gwaith elusennau o'r fath, cytunwn fod hwn yn faes lle mae angen i elusennau allu esbonio'r rhesymau sy'n sail i'w gweithgareddau. Ers i'r dystiolaeth hon gael ei chasglu, rydym wedi cyhoeddi rhai cwestiynau ac atebion i ategu ein harweiniad yn *Ymgyrchu a Gweithgareddau Gwleidyddol gan Elusennau* (CC9)[21], sy'n esbonio yn fwy manwl yr hyn y gall a'r hyn na all elusennau ei wneud, ac rydym wrthi'n ymgynghori â'r sector ar y mater hwn.

Roedd elusen arall wedi rhoi enghraifft o sut mae gwledydd eraill yn caniatáu canran arbennig o weithgareddau ymgyrchu. Roedd yn teimlo y byddai'r math hwn o ymagwedd yn gwneud hyn yn haws iddyn nhw ac elusennau eraill.

Roedd diwygio polisi neu ddeddfwriaeth mewn rhyw ffordd yn thema a godwyd gan sawl elusen. Er enghraifft, roedd un elusen yn ymwneud â diwygio cod moeseg newydd a oedd yn gofyn am fwy o gynrychiolaeth i grefyddau heb gynrychiolaeth ddigonol yn yr heddlu. Roedd hefyd yn ymwneud â monitro'r cod newydd wedi hyn.

Roedd un arall wedi gweithio i ailystyried y diffiniad o'r hyn sy'n cael ei ddosbarthu'n 'artaith' ar lefel Ewropeaidd, er enghraifft trwy ddwyn achos gerbron Llys Hawliau Dynol Ewrop. Roedd yr achos wedi esgor ar reol yn 1998 a olygai, am y tro cyntaf erioed, bod trais yn cael ei ystyried yn fath o artaith yn groes i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

21 *Ymgyrchu a Gweithgareddau Gwleidyddol gan Elusennau* (CC9) – fersiwn diwygiedig i'w gyhoeddi yn gynnar yn 2008. Yn y cyfamser, rydym wedi cyhoeddi canllaw atodol, *Ymgyrchu a Gweithgareddau Gwleidyddol gan Elusennau* – rhai cwestiynau ac atebion (Ebrill 2007), sydd ar gael ar ein gwefan, www.charitycommission.gov.uk

Casgliad

Ein casgliadau oedd bod elusennau hawliau dynol yn debyg iawn yn fras i elusennau eraill ar y Gofrestr o ran eu strwythur a'u llywodraethu. Mae ganddynt bryderon a materion tebyg iawn i fathau eraill o elusennau. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd, er bod y pryderon yn debyg, maent yn fwy ar gyfer elusennau hawliau dynol.

Enghraifft allweddol yw pwysigrwydd tryloywder ac atebolrwydd yn eu gwaith bob dydd; maes arall yw'r angen i roi pwyslais mawr ar gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o'u gwaith. Oherwydd meysydd gwaith anodd a dadleuol yr elusennau hyn, mae'n bosibl eu bod yn fwy agored i gael eu camddeall ac maent yn gwneud ymdrech fawr i godi ymwybyddiaeth o'r materion y cawsant eu sefydlu i'w datrys, ac esbonio eu hymdrechion i fynd i'r afael â nhw.

Maes arall lle mae elusennau hawliau dynol i'w gweld yn arbennig o gryf yw'r pwyslais y maent yn ei roi ar weithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau canlyniadau ac osgoi dyblygu ymdrech ac adnoddau.

Atodiad A – Technegau ymchwil

Mae ein gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar ystod, rôl a phroffil elusennau gydag amcanion sy'n cynnwys yn benodol hawliau dynol fel ar ddiwedd Mehefin 2007.

Rydym wedi defnyddio'r ffynonellau data a deunydd canlynol yn ein gwaith ymchwil:

- ein gwaith achos;
- Y Gofrestr Elusennau;
- Cyfrifon ac Adroddiadau Blynyddol elusennau;
- Ffurflenni Blynyddol;
- Ffurflenni Gwybodaeth Gryno (ar gyfer elusennau gydag incwm gros o fwy nag £1 miliwn); a
- detholiad o wefannau elusennau.

Roedd ein timau Ymweliad Adolygu hefyd wedi ymweld â saith elusen. Rydym wedi defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd o'r ymweliadau hyn i adrodd ar bersbectifau'r elusennau hyn ar weithredu ym maes hawliau dynol.

Atodiad B – Ffeithiau a ffigurau

Nifer yr elusennau hawliau dynol a'u hincwm

Ers i Ddeddf Elusennau 1960 greu'r Gofrestr Elusennau, mae 206 o elusennau gydag amcanion sy'n cynnwys y rhai sy'n ymwneud â hawliau dynol wedi cael eu cofrestru:[22] ers hynny mae 14 wedi cael eu dileu - roedd deg elusen wedi peidio â bodoli ac roedd pedair elusen wedi dirwyn i ben a'u hailsefydlu fel cwmnïau elusennol.

Roedd cyfanswm incwm blynyddol diwethaf elusennau hawliau dynol bron £160 miliwn.[23] Mae'r elusennau hyn yn ffurfio dim ond 0.1% o'r 'prif' elusennau ar Gofrestr Cymru a Lloegr, ond mae eu hincwm blynyddol cyfunedig yn cynrychioli ychydig o dan 0.4% o incwm cyffredinol yr holl elusennau cofrestredig.

Ble mae elusennau hawliau dynol yn gweithredu

Gall elusennau ddewis diffinio yn eu dogfennau llywodraethol yr ardaloedd o fudd daearyddol lle yr hoffent ymgymryd â'u gweithgareddau. Gellir dadansoddi'r ardaloedd hyn yn elusennau sy'n gweithredu:

- 'yn lleol';
- 'yn genedlaethol';
- 'yn rhyngwladol'; neu
- y ddau 'yn genedlaethol ac yn rhyngwladol'.

Yn ymarferol, gall elusennau ddewis gweithio mewn ardal weithredu lai na'r ardal o fudd a bennwyd.

Gweithio'n lleol

Mae gweithgareddau'r naw elusen leol yn amrywio o hybu hawliau dynol, er enghraifft, pobl anabl yn Rochdale i addysgu'r cyhoedd yn gyffredinol trwy gynnal cyfres o ddarlithoedd cyhoeddus yn Kingston-upon-Hull. Mae ardaloedd o fudd yr elusennau lleol hyn yn amrywio o'r ffocws cul hwn i lefel sirol a thu hwnt, fel 'Swydd Warwig' hyd at 'ardal Dyfnaint'.

Mae gweithgareddau hawliau dynol eraill a hybir yn lleol yn cynnwys:

- hybu cytgord hiliol; a
- hybu cydraddoldeb cymdeithasol a hawliau dynol pobl ifanc lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

Gweithio'n genedlaethol

Dangosodd ein gwaith ymchwil fod wyth elusen wedi dewis gweithredu'n genedlaethol, naill ai'n cwmpasu Cymru a Lloegr cyfan neu'r DU gyfan. Mae elfennau hawliau dynol penodol eu hamcanion yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau sy'n hybu hawliau dynol, gyda'r mwyafrif yn canolbwyntio ar bobl o genedligrwydd gwahanol sydd wedi ymgartrefu, neu sydd eisiau ymgartrefu yn y DU.

Gweithio'n rhyngwladol

Mae gan chwe elusen hawliau dynol ardal o fudd sydd wedi'i chyfyngu i leoliad daearyddol rhyngwladol. Mae'r ardaloedd hyn yn amrywio o ardaloedd a gwledydd a enwir fel Abu Dis (rhanbarth Palestina), Ardal Ffin Gwlad Thai a Rwmania i'r categori mwy cyffredinol 'Gwledydd sy'n Datblygu', De Ddwyrain Asia ac Affrica.

Mae ffocws daearyddol eang yr elusennau hyn yn cael ei gyfateb gan ystod o weithgareddau yr un mor eang y gall elusennau rhyngwladol ymgymryd â nhw i hybu hawliau dynol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys, ymysg pethau eraill:

- addysg am hawliau dynol;
- hybu hawliau dynol menywod;
- codi ymwybyddiaeth o hawliau dynol a throseddau hawliau dynol; a
- rhoi cymorth i blant sydd wedi dioddef troseddau hawliau dynol.[24]

Gweithio'n genedlaethol ac yn rhyngwladol

Nid oes gan gyfanswm o 169 o elusennau hawliau dynol unrhyw gyfyngiad ar eu hardal o fudd, sy'n golygu y gallant ymgymryd â'u hamcanion naill yma yn y DU neu dramor, neu mewn rhai amgylchiadau, y ddau.

Mae rhai elusennau cenedlaethol a rhyngwladol yn cynnwys dosbarthiadau penodol o fuddiolwyr yn eu

22 Mae amcanion hawliau dynol yn cael eu hamlinellu yn ein cyhoeddiad *Hybu Hawliau Dynol* (RR12), Comisiwn Elusennau (2005).
23 £159,724,232 sy'n cynrychioli'r incwm blynyddol diwethaf a gofnodwyd ar gyfer y 192 o elusennau hawliau dynol ar y Gofrestr fel ar 30 Mehefin 2007.
24 Mae ein canllaw, *Elusennau sy'n Gweithio'n Rhyngwladol*, yn rhoi cyngor ar y gofynion cyfreithiol ac arferion da a argymhellir ar gyfer elusennau sy'n gweithio'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn rhyngwladol neu dramor.

hamcanion ac maent yn ceisio hybu eu hawliau dynol. Gallai hyn fod mor eang ag addysgu'r cyhoedd am hawliau dynol, er enghraifft, codi ymwybyddiaeth o faterion hawliau dynol ymysg cwmnïau a buddsoddwyr.

Bydd elusennau eraill yn hybu hawliau dynol:

- plant a phobl ifanc tlawd;
- menywod;
- menywod o Affrica;
- pobl ifanc sydd wedi'u gorfodi i ymfudo a ffoaduriaid hirdymor; a'r
- rhai sy'n dioddef gwahaniaethu ar sail eu cast.

Mae rhai elusennau wedi paratoi eu hamcanion gyda chylch gwaith eang, ond wedi rhoi pwyslais ar gymuned ethnig, crefyddol neu ddaearyddol arbennig:

- *Affrica*; er enghraifft Affrica, Gweriniaeth De Affrica, Rhanbarth Canol Affrica, y Swdan neu Zimbabwe;
- *Asia*; er enghraifft, Indonesia, Tibet, India neu Nepal;
- *Ewrop*; er enghraifft, yr Almaen;
- *Y Dwyrain Canol*; er enghraifft Israel a'r Tiriogaethau a Feddiannir, Rhanbarth y Gwlff, Yemen neu Irac;
- *Byd-eang arall*; er enghraifft, Fiji, America Ladin neu wledydd y Caribî;
- *Ethnigrwydd penodol*; er enghraifft y Cwrdiaid; a
- *Crefyddau penodol*; er enghraifft y Ffydd Iddewig, y Gymuned Babyddol neu'r Bobl Goptaidd.

Mae defnyddio'r cyfryngau electronig megis y rhyngrwyd, cylchlythyron electronig, cymhorthion addysgu'r wefan a rhaglenni teledu rhyngweithiol yn cael eu nodi yn amcanion o leiaf tair elusen fel dulliau o hybu hawliau dynol a chyfleu neges yr elusennau.

Mae un elusen yn cynnwys hyrwyddo gweinyddiad cadarn y gyfraith hawliau dynol trwy ddarparu a chyhoeddi deunyddiau ar gyfer astudio'r gyfraith hawliau dynol, megis crynoadau o'r gyfraith hawliau dynol. Mae dwy elusen arall yn sôn am hyrwyddo addysg er mwyn sicrhau *"sylw teg a chywir yn y cyfryngau"* a *"sylw am ddim, cywir a chyfrifol yn y cyfryngau"* o fewn eu hamcanion.

Ers i'r Comisiwn gydnabod hyrwyddo hawliau dynol fel diben ar wahân yn 2002, mae'n bosibl bod gan rai elusennau amcanion addysgol nad ydynt yn eu cyflawni mwyach. Argymhellwn fod pob elusen yn adolygu eu hamcanion yn gyson ac yn eu diweddaru (gan gysylltu â ni os oes angen) er mwyn iddynt adlewyrchu'n gywir amcanion a gweithgareddau cyfredol yr elusen.

Sut mae elusennau hawliau dynol yn gweithredu

Dadansoddwyd gwybodaeth a darparwyd gan elusennau yn eu Ffurflenni Blynyddol ynghylch sut y maent yn mynd ati i gyflawni eu hamcanion. Dangosodd ddadansoddiad o'r ffordd y bydd elusennau hawliau dynol yn gweithredu fod y mwyafrif - 125 - yn darparu gwybodaeth, eiriolaeth neu gyngor. Mae 94 o elusennau yn noddi neu'n gwneud gwaith ymchwil, naill ai yn ogystal â darparu gwybodaeth, eiriolaeth neu gyngor neu ar wahân i hyn.

Math o weithredu	Nifer yr elusennau sy'n ymgymryd â'r gweithredu hwn
Darparu eiriolaeth/cyngor/gwybodaeth	125
Noddi neu'n gwneud gwaith ymchwil	94
Rhoi grantiau i sefydliadau	67
Darparu adnoddau dynol	66
Darparu gwasanaethau	63
Gweithredu fel corff mantell neu gorff adnoddau	53
Rhoi grantiau i unigolion	43
Darparu adeiladau/cyfleusterau/llecynnau agored	28
Darparu cyllid arall	3
Arall neu ddim un o'r rhain	0

Mae cant o elusennau, sy'n cynrychioli 49% o'r cyfanswm, wedi cael eu sefydlu fel cwmnïau elusennol. Mae nifer o'r cofrestriadau hyn wedi digwydd dros y 5 mlynedd diwethaf ac yn adlewyrchu'r tuedd cyffredinol tuag at ddewis statws corfforedig. O'r gweddill, mae 38% wedi cael eu sefydlu fel ymddiriedolaethau elusennol ac 14% fel sefydliadau aelodaeth wedi'u llywodraethu gan gyfansoddiad.

Yr achosion mwyaf cyffredin

Roedd cwynion yn erbyn yr elusen yn sylweddol uwch i elusennau hawliau dynol, a dyma'r pedwerydd math o achos mwyaf cyffredin ar gyfer elusennau hawliau dynol o'i gymharu â'r nawfed achos mwyaf cyffredin ar gyfer elusennau yn gyffredinol.[25]

Mae'r nifer uwch o gwynion a gyflwynwyd i ni am elusennau hawliau dynol efallai'n adlewyrchu eu natur fwy gweladwy a'u meysydd gweithredu dadleuol, gan eu gwneud yn fwy agored i gwynion.

Dangosodd ein gwaith ymchwil ein bod wedi delio â 22 o achosion yn cynnwys cwynion yn erbyn 15 elusen hawliau dynol, ac roedd y mwyafrif ohonynt yn fân gwynion.

Roedd deg o'r achosion hyn, yn cynnwys saith elusen, yn ymwneud â honiadau a wnaed gan aelodau'r cyhoedd bod yr elusennau naill ai'n ymgymryd â gweithgareddau gwleidyddol neu ymgyrchoedd a/neu ddulliau codi arian annymunol. Penderfynwyd nad oedd unrhyw un o'r elusennau dan sylw yn gweithredu'n groes i'r egwyddorion a bennwyd yn *Ymgyrchu a Gweithgareddau Gwleidyddol gan Elusennau* (CC9).

Roedd deg achos arall yn ymwneud â chwynion penodol eraill yn erbyn saith elusen. Roedd yr achosion hyn yn amrywio o gŵyn am bolisïau elusen arbennig, nad oeddem wedi'i chynnal, i gŵyn gan gyn-ymddiriedolwr bod ei henw yn parhau i ymddangos ar wefan yr elusen, a oedd yn gamgymeriad gweinyddol.

Roedd y ddau achos sy'n weddill yn ymwneud ag enw elusen a gafodd ei ddileu o'r Gofrestr. Nid oedd unrhyw achos pryder yn yr achos hwn.

25 Fel rhan o'n gwaith ymchwil dadansoddwyd y deg achos mwyaf diweddar ar gyfer pob elusen hawliau dynol lle y rhoddwyd cyngor ac arweiniad dros y pum mlynedd diwethaf. Roedd cwynion yn erbyn yr elusen (gan gynnwys elusennau a ddilëwyd) yn cyfrif am 7.8% o gyfanswm yr achosion diweddar.

Atodiad C – Rhestr termau

Yn yr adroddiad hwn, pan ddefnyddiwn '**rhaid**', golygwn ei fod yn ofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol penodol sy'n effeithio ar ymddiriedolwyr neu elusen. Rhaid i ymddiriedolwyr gydymffurfio â'r gofynion hyn.

Ystyr **cwmni elusennol** yw cwmni:

- a ffurfiwyd ac a gofrestrwyd o dan Ddeddf Cwmnïau 1985; neu
- y mae darpariaethau Deddf 1985 yn gymwys iddo fel y maent yn gymwys i gwmni a ffurfiwyd ac a gofrestrwyd yn unol â hynny; ac
- sydd wedi'i sefydlu at ddibenion elusennol yn unig.

(Y) Comisiwn: Y Comisiwn Elusennau.

Dogfen lywodraethol: Unrhyw ddogfen sy'n pennu dibenion yr elusen ac, fel arfer, y dull o'i gweinyddu. Gall fod yn Siartr Frenhinol, yn weithred ymddiriedolaeth, yn gyfansoddiad, yn femorandwm ac erthyglau cymdeithasu, yn ewyllys, yn drawsgludiad neu'n Gynllun y Comisiwn Elusennau.

Ystyr **ymddiriedolwyr** yw ymddiriedolwyr elusen. Ymddiriedolwyr elusen yw'r bobl sy'n gyfrifol am reoli gweinyddiad yr elusen yn gyffredinol. Yn nogfen lywodraethol yr elusen gallant gael eu galw'n ymddiriedolwyr, yn ymddiriedolwyr rheoli, yn aelodau pwyllgor, yn llywodraethwyr, neu'n gyfarwyddwyr, neu gall fod rhyw deitl arall ganddynt.

Atodiad Ch – Ffynonellau gwybodaeth

Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr

Y Comisiwn Elusennau yw rheolydd annibynnol elusennau yng Nghymru a Lloegr. Ei nod yw darparu'r dull rheoleiddio gorau posibl ar gyfer elusennau yng Nghymru a Lloegr, er mwyn cynyddu effeithiolrwydd elusennau a ffydd ac ymddiriedaeth y cyhoedd. Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o elusennau gofrestru gyda'r Comisiwn, ond nid oes rhaid i rai mathau arbennig o elusen gofrestru. Mae rhyw 190,000 o elusennau cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Mae'r fframwaith yn wahanol yn yr Alban, ac nid yw'r Comisiwn yn rheoleiddio elusennau'r Alban.

Mae'r Comisiwn yn darparu ystod eang o gyngor ac arweiniad i elusennau a'u hymddiriedolwyr, a gall helpu gyda phroblemau yn aml. Rhaid i elusennau cofrestredig sydd ag incwm neu wariant blynyddol o fwy na £10,000 ddarparu gwybodaeth a chyfrifon blynyddol i'r Comisiwn. Mae pwerau eang gan y Comisiwn i ymyrryd mewn materion elusen os yw pethau wedi mynd o chwith.

Mae mwy o wybodaeth am y Comisiwn Elusennau ynghyd ag ystod o ganllawiau i elusennau i'w gweld ar ei gwefan www.charitycommission.gov.uk, neu drwy gysylltu â'r Comisiwn Elusennau Uniongyrchol:

Ffôn: **0845 300 0218**
Typetalk: **0845 300 0219**

Trwy'r post: **Y Comisiwn Elusennau Uniongyrchol**
Blwch SP 1227
Lerpwl
L69 3UG

Cyhoeddiadau'r Comisiwn Elusennau

Gall y cyhoeddiadau hyn gan y Comisiwn Elusennau fod yn ddefnyddiol i ymddiriedolwyr a staff elusennau hawliau dynol:

Ymgyrchu a Gweithgareddau Gwleidyddol gan Elusennau (CC9)
Ymgyrchu a gweithgareddau gwleidyddol gan elusennau - rhai cwestiynau ac atebion[26]
Hybu Hawliau Dynol (RR12)

26 Mae hwn ar gael ar ein gwefan yn: http://www.charitycommission.gov.uk/supportingcharities/campaignqa.asp

Atodiad D - Llyfryddiaeth

Swyddfa'r Cabinet (2002): *Gweithredu Preifat, Budd Cyhoeddus: Adolygiad o Elusennau a'r Sector Di-elw Ehangach* adolygiad o fframwaith cyfreithiol a rheoleiddio'r sector di-elw, lle mae elusennau'n ffurfio'r mwyafrif. Ar gael yn:

http://www.cabinetoffice.gov.uk/upload/assets/www.cabinetoffice.gov.uk/strategy/strat-data.pdf

Deddf Elusennau 1993

Deddf Elusennau 2006

Comisiwn Elusennau (2004): *Ymgyrchu a Gweithgareddau Gwleidyddol gan Elusennau* (CC9) mae'n disgrifio'r gweithgareddau hynny y mae'r Comisiwn Elusennau yn eu hystyried sy'n briodol i elusennau ymgymryd â nhw o dan y gyfraith bresennol, ac mae'n amlinellu'r ffactorau risg y dylai elusennau eu hasesu fel rhan o'u cynllunio ar gyfer gweithgareddau ymgyrchu. Ar gael yn:

http://www.charitycommission.gov.uk/Library/publications/pdfs/cc9text.pdf

Mewn ymateb i gwestiynau a ofynnwyd gan elusennau, yn 2007 fe gyhoeddwyd ar ein gwefan ***Ymgyrchu a gweithgareddau gwleidyddol gan elusennau - rhai cwestiynau ac atebion*** fel atodiad i'n canllaw, CC9. Fe welwch y cwestiynau a'r atebion hyn yn:

http://www.charitycommission.gov.uk/supportingcharities/campaignqa.asp

Comisiwn Elusennau: *Elusennau sy'n Gweithio'n Rhyngwladol* mae'n rhoi arweiniad ar y gofynion cyfreithiol ac arferion da cymeradwy i elusennau sy'n gweithio'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn rhyngwladol neu dramor. Cyhoeddir fersiwn wedi'i ddiweddaru ar y wefan tua diwedd 2007. Mae'r canllaw hwn ar gael ar ein gwefan yn:

http://www.charitycommission.gov.uk/supportingcharities/cwi.asp

Comisiwn Elusennau (2007): *Sylwadau ar y Disgrifiadau o Ddibenion Elusennol yn Neddf Elusennau 2006* mae'n rhoi gorolwg bras ar gwmpas pob un o'r disgrifiadau o ddibenion a restrir yn Neddf Elusennau 2006 a'r mathau o weithgaredd elusennol a allai gael eu cynnwys o fewn pob diben. I'w weld yn:

http://www.charitycommission.gov.uk/spr/corcom1.asp

Comisiwn Elusennau (2007): *Ymgynghori ar y Canllawiau Budd Cyhoeddus Drafft* mae'n esbonio beth mae'r gofyniad budd cyhoeddus yn ei olygu ac yn cynnig rhai cynigion i'w hymgynghori arnynt ynghylch yr hyn y cred y Comisiwn Elusennau y dylai ymddiriedolwyr elusen adrodd amdano o ran budd cyhoeddus eu helusen. I'w weld yn:

http://www.charitycommission.gov.uk/news/pbnewsindex.asp

Comisiwn Elusennau (2005): *Hybu Hawliau Dynol* (RR12) mae'n egluro ein canllaw ar hybu hawliau dynol fel diben elusennol. (Mae'r canllaw diwygiedig yn esbonio sut y mae hybu hawliau dynol yn ddiben elusennol trwy gyfatebiaeth â dibenion elusennol eraill.) I'w weld yn:

http://www.charitycommission.gov.uk/publications/rr12.asp

Deddf Hawliau Dynol 1998

Picarda Hubert, ***The Law and Practice Relating to Charities***, 3ydd Argraffiad (Tachwedd 1999) Butterworths.

Warburton J & Morris D (Golygyddion), ***Tudor on Charities***, 9fed Argraffiad (Awst 2003) Sweet & Maxwell.

Diolchiadau

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cydweithredu i gynhyrchu'r adroddiad hwn, yn enwedig yr elusennau a roddodd o'u hamser a'u caniatâd i gael eu defnyddio yn yr adroddiad fel astudiaethau achos.

Nodiadau

Mae modd cyrchu'r cyhoeddiad hwn ar wefan y Comisiwn Elusennau hefyd:
www.charitycommission.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2008. Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y cyhoeddiad.

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i argraffu ar bapur sy'n dod o adnoddau cynaliadwy yn unig ac mae'n hollol rydd rhag clorin.
Cyflenwyd gan Linney Group.
xxxxxx xx/2008

Crëwyd a chynhyrchwyd gan: Adran Ddylunio, Comisiwn Elusennau

Gallwch gael fersiynau print bras o'r cyhoeddiad hwn gan y Comisiwn Elusennau ar 0845 300 0218

Comisiwn Elusennau
Ffôn: **0845 300 0218**
Typetalk: **0845 300 0219**
Trwy'r post: **Comisiwn Elusennau Uniongyrchol**
Blwch SP 1227
Lerpwl
L69 3UG
Gwefan: **www.charitycommission.gov.uk**

Elusennau sy'n gweithio ym maes hawliau dynol. Ionwar 2008.

RS16